WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Gwasanaeth Gwastraff – Adolygiad Dilynol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 900A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones ac Allison Rees, gyda Non Jenkins yn rheolwr rhaglen a Huw Rees yn cyfarwyddo'r gwaith.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Bu cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn araf ac mae rhai materion o bwys yn parhau, ond mae'r perfformiad wedi gwella gyda ffocws a momentwm o'r newydd i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o fewn y gwasanaeth gwastraff. 7

Bu'r Cyngor yn araf yn datblygu strategaeth integredig ar gyfer gwastraff, ond nid yw hyn wedi atal gwelliannau mewn perfformiad yn y tymor byr 7

Mae'r swyddogaeth graffu bellach yn cymryd mwy o ran yn natblygiad y gwasanaeth gwastraff, ond gellir cryfhau'r swyddogaeth honno ymhellach drwy herio'n fwy effeithiol 9

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a hyfforddi staff yn gwella, mae arferion gwaith bellach yn fwy cyson ac mae'r Cyngor yn ceisio lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth 13

Cyflwynodd y Cyngor gytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer trefniadau cynnal a chadw cyffredinol rhwng gwasanaethau Fflyd a Gwastraff ym mis Gorffennaf 2018 14

Mae'r Cyngor wedi gwella'r wybodaeth y mae'n ei darparu i aelodau am berfformiad contractau 15

Nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol eto i drefniadau rheoli perfformiad gweithwyr gwastraff 16

Mae'r Cyngor bellach yn defnyddio ystod ehangach o ddulliau i gyfathrebu ynghylch y gwasanaethau gwastraff er mwyn hysbysu preswylwyr 17

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei drefniadau rheoli risg strategol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff, ond mae angen iddo sicrhau bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol 18

Nid yw'r Cyngor wedi monitro ei gynnydd yn ddigonol wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn 2015 19

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mewn ymateb i gynigion Swyddfa Archwilio Cymru i wella'r gwasanaeth gwastraff 21

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam mae gwastraff ac ailgylchu yn bwysig

1 Mae rheoli gwastraff yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn 2011, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Newid Gydweithredol er mwyn hwyluso darparu gwasanaethau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yng nghyd-destun cyflawni amcanion Tuag at Ddyfodol Diwastraff[1], Strategaeth Rheoli Gwastraff Llywodraeth Cymru. Menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)[2]. Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn fwy heriol na pholisïau tebyg ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi:

- gosod targedau hirdymor ar gyfer ailgylchu/ailddefnyddio gwastraff trefol:
  - 52% erbyn 2012-13;
  - 58% erbyn 2015-16;
  - 64% erbyn 2019-20; a
  - 70% erbyn 2024-25, ryw bum mlynedd ynghynt na thargedau cyfredol Lloegr;
- sefydlu Cynllun Lwfansau Tirlenwi sy'n cyfyngu ar swm y gwastraff trefol bioddiraddadwy y gall cynghorau yng Nghymru ei anfon i safleoedd tirlenwi; a
- chreu'r posibilrwydd o orfodi cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfio.

2 Bu rheoli gwastraff yn flaenoriaeth i'r Cyngor ers amryw o flynyddoedd. Mae rheoli gwastraff yn rhan o flaenoriaeth **Torfaen Glân a Gwyrdd** o fewn y Cynllun Corfforaethol (CP3) 2018-19 hyd 2020-2021.

3 Ceir dau ddull o fesur perfformiad cenedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff:

- canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd; a
- kg y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul unigolyn.

[1] **Tuag at Ddyfodol Diwastraff** yw'r ddogfen sy'n amlinellu'r strategaeth wastraff gyffredinol ar gyfer Cymru. Fe'i cyhoeddwyd yn 2010. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd er mwyn gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o fod yn genedl sy'n ailgylchu cyfradd uchel o'i gwastraff erbyn 2025, ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050.

[2] Cwmni dielw a sefydlwyd y 2000 yw WRAP. Mae'n gweithio gyda busnesau, unigolion a chymunedau i'w cynorthwyo i elwa ar leihau gwastraff, datblygu cynnyrch cynaliadwy, a defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon. Mae WRAP yn derbyn cefnogaeth ariannol gan lywodraethau Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

## Yr hyn y buom yn edrych arno

4 Yn ystod mis Mehefin hyd fis Awst 2018, cynhaliom adolygiad o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) wrth ymdrin â'r naw cynnig ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiad **Asesu Gwasanaethau Rheoli Gwastraff** a gyhoeddwyd yn mis Mehefin 2015. Buom hefyd yn ystyried trefniadau'r Cyngor ar gyfer asesu ei gynnydd wrth ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella.

## Sut yr aethom ati i gynnal yr adolygiad

5 Yn sail ar gyfer ein canfyddiadau, buom yn cyfweld â detholiad o aelodau etholedig, swyddogion a staff gweithredol o fewn y gwasanaeth gwastraff. Buom hefyd yn adolygu dogfennau perthnasol ac yn arsylwi un o gyfarfodydd y pwyllgor craffu. Buom hefyd yn adolygu asesiadau'r Cyngor ei hun o gynnydd wrth ymdrin â'r naw cynnig ar gyfer gwella.

6 Yn fuan yn ein hadolygiad, nodwyd nifer o faterion pwysig sy'n creu'r cyd-destun ar gyfer cynnydd y Cyngor a'n casgliadau:

- roedd absenoldeb rhai o swyddogion allweddol y gwasanaeth gwastraff ers 2016 oherwydd salwch hirdymor wedi lleihau capasiti'r gwasanaeth i ymdrin yn llawn â'r cynigion ar gyfer gwella;
- y cynnydd sylweddol mewn perfformiad ailgylchu rhwng 2015-16 a 2016-17 yn sgil y newidiadau a gyflwynwyd gan y Cyngor i'r trefniadau casglu gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu; a
- phenodi Prif Swyddog a Phrif Swyddog Cynorthwyol newydd yn nhymor yr hydref 2016 sydd yn sefydlu ffocws a momentwm o'r newydd er mwyn ymdrin yn llawn â'r cynigion ar gyfer gwella.

## Y canfyddiad cyffredinol

7 Nod ein hadolygiad oedd ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi ymdrin yn effeithiol â'n cynigion ar gyfer gwella trefniadau rheoli gwastraff, a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, er mwyn hwyluso canlyniadau gwell a chynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff?**

8 At ei gilydd, canfuom: **Y bu cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn araf a bod rhai materion o bwys yn parhau. Er hynny, mae perfformiad wedi gwella gyda ffocws a momentwm o'r newydd i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o fewn y gwasanaethau gwastraff.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- bu'r Cyngor yn araf yn datblygu strategaeth integredig ar gyfer gwastraff, ond nid yw hyn wedi atal gwelliannau mewn perfformiad yn y tymor byr;
- mae'r swyddogaeth graffu bellach yn cymryd mwy o ran yn natblygiad y gwasanaeth gwastraff, ond gellir cryfhau'r swyddogaeth honno ymhellach drwy herio'n fwy effeithiol;
- mae'r Cyngor bellach yn mynd ati'n fwy gweithredol i hyrwyddo ei safonau gwasanaeth;

- mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a hyfforddi staff yn gwella, mae arferion gwaith bellach yn fwy cyson ac mae'r Cyngor yn ceisio lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth;
- cyflwynodd y Cyngor gytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer trefniadau cynnal a chadw cyffredinol rhwng gwasanaethau Fflyd a Gwastraff ym mis Gorffennaf 2018;
- mae'r Cyngor wedi gwella'r wybodaeth y mae'n ei darparu i aelodau am berfformiad contractau;
- nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol eto i drefniadau rheoli perfformiad gweithwyr gwastraff;
- mae'r Cyngor bellach yn defnyddio ystod ehangach o ddulliau i gyfathrebu ynghylch y gwasanaethau gwastraff er mwyn hysbysu preswylwyr;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei drefniadau rheoli risg strategol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff, ond mae angen iddo sicrhau bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol; ac
- nid yw'r Cyngor wedi monitro ei gynnydd yn ddigonol wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn 2015.

9 Dyma'r materion o bwys sy'n weddill wrth symud ymlaen:

- egluro cyfeiriad strategol y gwasanaeth gwastraff fe bo modd sicrhau canlyniadau gwell a chynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff;
- gwella'r trefniadau ar gyfer monitro a rheoli risgiau lefel gwasanaeth ar gyfer gwastraff; a
- chryfhau atebolrwydd a her y swyddogaeth graffu.

# Adroddiad manwl

## Bu cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn araf ac mae rhai materion o bwys yn parhau, ond mae’r perfformiad wedi gwella gyda ffocws a momentwm o'r newydd i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o fewn y gwasanaeth gwastraff

10 Dyma ein hasesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymdrin â phob un o'n naw cynnig ar gyfer gwella yn 2015.

### Bu'r Cyngor yn araf yn datblygu strategaeth integredig ar gyfer gwastraff, ond nid yw hyn wedi atal gwelliannau mewn perfformiad yn y tymor byr

Dangosyn 1: Cynnig ar gyfer Gwella 1 2015

| Cynnig ar gyfer Gwella 1 2015 |
| --- |
| Datblygu strategaeth integredig sengl ar gyfer ei Wasanaeth Rheoli Gwastraff. Dylai'r Cyngor:<br>• bennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y gwasanaeth, y tu hwnt i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.<br>• datblygu strategaeth integredig sengl sy'n nodi:<br>– sut y caiff y weledigaeth ei gwireddu;<br>– pa seilwaith sydd ei angen;<br>– sut y bydd yn cydweithio ag eraill a'i ymagwedd at gontractio allan; a<br>– sut mae'n bwriadu addysgu preswylwyr a chymryd camau gorfodi priodol. |

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi llunio strategaeth integredig sengl ar gyfer y gwasanaeth gwastraff eto.
- yn rhan o ymateb y Cyngor i'n cynigion ar gyfer gwella'r gwasanaeth rheoli gwastraff yn 2015, cychwynnwyd gwaith buan i ddatblygu strategaeth integredig sengl ar gyfer gwastraff, ond peidiodd y cynnydd.
- cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016 yn sail ar gyfer egin-strategaeth, ond yn dilyn yr ymarfer hwn nid oedd gan y Cyngor ddigon o gapasiti i lunio strategaeth derfynol.
- gadawodd y pennaeth gwasanaeth blaenorol y Cyngor yn 2016, ac yna'r prif swyddog dros dro yn 2017. Yn sgil yr ymadawiadau hynny, gadawyd bwlch mewn capasiti ar lefel yr uwch reolwyr. Ar ben hynny, mae swyddogion allweddol y gwasanaeth gwastraff wedi bod yn absennol oherwydd salwch hirdymor ers 2016.

12 Fodd bynnag, er gwaethaf y bwlch yng nghapasiti gweithlu'r gwasanaeth yn ystod 2016 a 2017, llwyddwyd i sicrhau rhai datblygiadau o fewn y gwasanaeth. Ar adeg ein hadolygiad blaenorol yn

2015, roedd gan y Cyngor gontractau byrdymor, dros dro ar gyfer gwaredu gwahanol ddeunyddiau gwastraff ac ailgylchu. Ers ein hadolygiad yn 2015, mae'r Cyngor wedi datblygu contractau parhaol hirdymor mewn partneriaeth â chynghorau eraill. Dyma nhw:

- contract Gwastraff Gweddilliol ar y cyd â chynghorau Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent. Dechreuodd y contract hwn ym mis Ebrill 2016.
- ymarfer caffael Gwastraff Gwyrdd ar y cyd â chynghorau Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd. Dechreuodd cytundeb y Cyngor â'i gontractwr penodedig yn 2017.
- contract Gwastraff Bwyd ar y cyd â chynghorau Blaenau Gwent a Sir Fynwy. Dechreuodd y contract hwn ym mis Ebrill 2018;
- cynyddodd perfformiad ailgylchu'r Cyngor o 57.4% yn 2015-16 i 63.6% yn 2016-17, a oedd 5.6% yn uwch na'r targed statudol cenedlaethol o 58%. Mae'r cynnydd sylweddol hwn yn tarddu'n rhannol o:
  - agor Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi'i hestyn yn 2015 i dderbyn deunyddiau ychwanegol i'w hailgylchu;
  - cyflwyno biniau gwastraff cyffredinol capasiti llai (cul) yn 2016, a chynnal ymgyrch cyfathrebu ac ymgysylltu gefnogol i hysbysu preswylwyr am y newid hwnnw; a
  - chynyddu cyfraddau cyfranogiad bwyd ac ailgylchu.
- yn 2017-18, gostyngodd perfformiad ailgylchu y Cyngor i 60.6%. Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, adroddodd 17 o'r 22 o gynghorau ostyngiad yn eu cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio yn 2017-18 o gymharu â 2016-17. Mae hyn yn bennaf oherwydd cyfuniad o'r gostyngiad yn y Lludw Gwaelod Llosgydd a adroddir fel deunydd a ailgylchir a gwelliannau yng nghywirdeb adroddiadau am goed[3]. Mae'r Cyngor yn parhau i fod ar y 15fed safle cenedlaethol o ran perfformiad ailgylchu, ac mae perfformiad y Cyngor yn 2017-18 yn parhau i fod yn uwch na'r targed statudol cenedlaethol o 58%.
- mae'r Prif Swyddog a'r Prif Swyddog Cynorthwyol a benodwyd yn nhymor yr hydref 2017 wedi creu egni, ymrwymiad a momentwm o'r newydd i ddatblygu strategaeth integredig sengl hirdymor ar gyfer y gwasanaeth gwastraff.
- yn ôl y Cyngor mae'r capasiti o ran staff yn dal i fod yn brin i wneud cynnydd wrth ddatblygu strategaeth. Yn y pwyllgor craffu Cymunedau Glanach ar 20 Mehefin 2018, adroddodd swyddogion wrth yr aelodau fod y Prif Swyddog newydd wedi cynnig penodi ymgynghorydd allanol i gwblhau'r strategaeth er mwyn ymdrin â'r mater hwn. Yn dilyn y cyfarfod hwn o'r pwyllgor craffu, nododd WRAP y gallai gynorthwyo'r Cyngor i lunio strategaeth heb godi unrhyw dal am hynny gan y Cyngor.
- mae'r Cyngor yn disgwyl drafft llawn o'i strategaeth wastraff integredig sengl erbyn mis Rhagfyr 2018. Bydd y pwyllgor craffu Cymunedau Glanach wedyn yn ystyried y strategaeth ddrafft hon ym mis Ionawr 2019.
- nid yw'r ffaith nad oes gan y Cyngor strategaeth wastraff integredig sengl wedi ei atal rhag gwella'r gwasanaeth yn y tymor byr, ond mae angen o hyd i'r Cyngor ddatblygu strategaeth

[3]Llywodraeth Cymru. Rheoli Gwastraff Trefol mewn Awdurdodau Lleol, 2017-18 cyhoeddwyd 17 Hydref 2018 (SFR 94/2018).

integredig sengl hirdymor. Dylai strategaeth gynnig gweledigaeth strategol glir fydd yn galluogi'r Cyngor i sicrhau gwelliannau cynaliadwy i'r gwasanaeth. Er bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen canolbwyntio ar breswylwyr wrth lunio strategaeth wastraff integredig sengl, yn hytrach na llunio'r strategaeth honno i gyrraedd targedau statudol yn unig.

## Mae'r swyddogaeth graffu bellach yn cymryd mwy o ran yn natblygiad y gwasanaeth gwastraff, ond gellir cryfhau'r swyddogaeth honno ymhellach drwy herio'n fwy effeithiol

Dangosyn 2: Cynnig ar gyfer Gwella 2 2015

| Cynnig ar gyfer Gwella 2 2015 |
| --- |
| Cryfhau'r trefniadau llywodraethu a herio. Dylai'r Cyngor:<br>• egluro a gweithredu rolau a chyfrifoldebau perthynol swyddogion, aelodau a'r swyddogaeth Graffu; a<br>• lle bo'n briodol, defnyddio'r swyddogaeth Graffu yn sail ar gyfer y broses benderfynu, yn hytrach nag ar gyfer adolygiad yn dilyn penderfyniad yn unig. |

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- bod craffu bellach yn ymgysylltu â'r gwasanaeth gwastraff yn y cyfnod cyn penderfynu.
- o Ragfyr 2015 hyd at gyflawni ein gwaith maes ar gyfer yr adolygiad dilynol hwn, bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiad y gwasanaeth gwastraff. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried:
  - cynllun gweithredu swyddogion i ymdrin â phob un o'n cynigion ar gyfer gwella'r gwasanaeth gwastraff (Rhagfyr 2015);
  - canlyniad ymarfer i ymgysylltu â'r cyhoedd a staff (Medi 2016);
  - adolygiad o'r broses o gyflwyno biniau cul (Chwefror 2017);
  - datblygu'r Strategaeth Wastraff (Chwefror 2018); a
  - dau ddiweddariad ar gynnydd ynghylch ein cynigion ar gyfer gwella (Mawrth 2017 a Mehefin 2018).
- gwnaeth y pwyllgor gyfanswm o 13 o argymhellion: tri ynghylch y cynllun gweithredu i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a 10 ynghylch canlyniadau ymgysylltu â'r cyhoedd a staff. Yn adroddiad diweddaru'r Cyngor ar y cynigion ar gyfer gwella a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2017, cafwyd diweddariad defnyddiol am yr argymhellion - a oedd yr argymhellion wedi'u gweithredu (pedwar argymhelliad), wedi'u gwrthod (0) neu'n cael eu hystyried (naw argymhelliad), yr effaith (os oedd yn berthnasol), ac ymateb yr Aelodau Gweithredol.
- cyflwynwyd ein cynigion ar gyfer gwella yn 2015, ac er bod adroddiadau ar gynnydd wedi'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach, ni chafwyd rhyw lawer o her o du'r

swyddogaeth graffu ynghylch cyflymder a phrydlondeb y Cyngor wrth fynd ati i ymdrin â'r cynigion a chyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu.

- buom yn arsylwi cyfarfod o'r pwyllgor craffu Cymunedau Glanach ar 20 Mehefin 2018, a nodwyd nad oedd swyddogion wedi cael eu herio rhyw lawer ynghylch prydlondeb cynnydd.
- mae'r Aelod Gweithredol yn hyddysg ynghylch y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu ac yn ymrwymedig i sicrhau gwelliannau cynaliadwy pellach i berfformiad y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Aelod Gweithredol yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn y pwyllgor craffu Cymunedau Glanach er mwyn ei ddwyn i gyfrif am gyfeiriad strategol y gwasanaeth gwastraff na'i berfformiad na'i gynnydd wrth gyflawni.
- yn ein **hadroddiad Trosolwg a Chraffu: Addas i'r Dyfodol** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, adroddwyd bod Aelodau Gweithredol yn cael gwahoddiad 'ar sail eithriad', ac nad yw pwyllgorau craffu yn eu dwyn i gyfrif yn rheolaidd. O ganlyniad i hyn bydd swyddogion fel arfer yn cael eu holi ynghylch materion y mae aelodau Gweithredol yn gyfrifol amdanynt, fel penderfyniadau, polisïau neu berfformiad gwasanaethau. Mae hyn yn drysu atebolrwydd. Mae hyn hefyd yn awgrymu bod angen i'r Cyngor sicrhau bod aelodau'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu a swyddogion y Cyngor yn deall ac yn chwarae eu rhannau perthynol yn rhan o'r broses graffu. Mae'r datganiad hwn yn parhau i fod yn berthnasol yn yr adolygiad dilynol hwn o'r gwasanaeth gwastraff. Er bod swyddogion yn bresennol yn y pwyllgor craffu i ateb cwestiynau'r aelodau, nid yw'r Aelod Gweithredol yno i ymateb i unrhyw gwestiynau'n gysylltiedig â pholisi neu berfformiad strategol.
- ar wahân i'r trefniadau craffu, mae gan y Cyngor drefniadau eraill i herio'r gwasanaeth gwastraff. Bydd y Prif Swyddog a'r Aelod Gweithredol perthnasol yn cyfarfod bob chwarter â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, a bydd y naill a'r llall yn bresennol yn Asesiadau Perfformiad Corfforaethol rheolaidd y Cyngor. Dylai'r Asesiadau Perfformiad Corfforaethol a gynhelir bob chwarter fod o gymorth i Aelodau Gweithredol gael dealltwriaeth well o berfformiad y maent yn atebol amdano yn gysylltiedig â'u portffolios, a hefyd o faterion perfformiad ehangach ar draws y Cyngor. Dylai'r sesiynau hyn hefyd fod yn gyfle i Aelodau Gweithredol gwestiynu a herio Prif Swyddogion ynghylch perfformiad y gwasanaeth.

## Dangosyn 3: Cynnig ar gyfer Gwella 3 2015

| Cynnig ar gyfer Gwella 3 2015 |
|---|
| Mynd ati'n fwy gweithredol i hyrwyddo safonau gwasanaeth y Cyngor a gwella ansawdd data yn gysylltiedig â hwy. Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod pwysigrwydd safonau'r gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyfleu wrth y staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth o'u rôl yn y safonau hynny;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn erbyn safonau'r gwasanaeth gwastraff yn cael ei chasglu a'i hadrodd mewn modd amserol; a<br>• adrodd ar berfformiad yn erbyn safonau'r gwasanaeth a rhannu'r canlyniadau â'r staff, yr aelodau a'r dinasyddion yn rheolaidd. |

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- bod safonau gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am feysydd y mae angen i'r Cyngor eu gwella, y gwahanol gasgliadau gwastraff ac ailgylchu a'r modd y gall y cyhoedd gydweithio â'r Cyngor er mwyn helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu.
- bod safonau gwasanaeth gwastraff y Cyngor yn rhoi disgrifiad clir o'r gwasanaethau y gall y cyhoedd ddisgwyl i'r Cyngor eu darparu, a'r cyfraniad y gall preswylwyr ei wneud er mwyn helpu i wella perfformiad y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu.
- ceir 23 o safonau gwasanaeth. Roedd yr holl staff a gafodd eu cyfweld yn gyfarwydd â safonau'r gwasanaeth gwastraff ac yn glir ynghylch eu rôl wrth sicrhau bod safonau'r gwasanaeth gwastraff yn cael eu bodloni. Mae'r Cyngor o'r farn y byddai hysbysu'r cyhoedd am berfformiad yn erbyn pob safon gwasanaeth ar hyn o bryd yn golygu cyflwyno gormodedd o wybodaeth. Gan hynny, mae'r Cyngor yn hyrwyddo safonau gwasanaeth unigol yn ôl yr angen, er enghraifft, unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn gysylltiedig â newid ymddygiad preswylwyr.
- mae'r Cyngor yn hyrwyddo safonau'r gwasanaeth gwastraff ar wefan y Cyngor, a safonau gwasanaeth unigol drwy'r cyfryngau cymdeithasol a Llais Torfaen (y cylchlythyr print olaf a gyhoeddwyd yn nhymor yr hydref 2017). Mae'r gwasanaeth gwastraff hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a hyrwyddo mentrau unigol fel casgliadau cewynnau, defnyddio rhwydi ar y biniau cul a newidiadau i gasgliadau gwastraff ac ailgylchu oherwydd tywydd drwg.
- gwnaeth y Cyngor ddefnydd helaeth o Llais Torfaen i hyrwyddo a rhannu negeseuon allweddol i'r cyhoedd am y gwasanaeth gwastraff. Cyn newid cylchlythyr cymunedol y Cyngor, Llais Torfaen, i ddulliau cyfathrebu electronig, cafodd yr erthyglau hyn eu cynnwys i'r preswylwyr:
  - perfformiad ailgylchu (hydref 2017, Ebrill 2016);
  - perfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth (Chwefror 2016);
  - newidiadau i'r gwasanaeth - atal casgliadau gwyrdd (Gwanwyn 2017, Ebrill 2016, Rhagfyr 2015);
  - cyflwyno biniau cul (Hydref 2015);
  - casgliadau cewynnau (Chwefror 2016, Hydref 2015);
  - gosod eitemau cywir yn y blwch ailgylchu (Hydref 2016);
  - sicrhau bod eitemau plastig yn cael eu golchi a'u gwasgu (Hydref 2016);
  - argaeledd cynwysyddion a leiners cadi (Hydref 2016, Ebrill 2016, Chwefror 2016);
  - annog preswylwyr i bersonoli eu cynwysyddion gwastraff (Ebrill 2016); a
  - thynnu sylw at weithgareddau'r Cyngor gydag ysgolion (Ebrill 2016).
- yn ogystal â chyfathrebu drwy'r Fwrdeistref Sirol drwy Llais Torfaen a'r cyfryngau cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio dulliau eraill o gyfathrebu â phreswylwyr ar raddfa lai. Mae Goruchwylwyr a Gweithwyr Cyfrifol wedi derbyn hyfforddiant ar gyfathrebu â'r cyhoedd. Bydd Goruchwylwyr a Gweithwyr Cyfrifol yn ymweld â chartrefi preswylwyr i esbonio sut y caiff gwastraff a deunyddiau ailgylchu amrywiol eu casglu, a'r gwahanol

gynwysyddion i'w defnyddio ar eu cyfer. Bydd y Cyngor yn defnyddio ymweliadau o'r fath er mwyn helpu i addysgu'r cyhoedd lle bo angen, er mwyn cyrraedd safonau'r gwasanaeth.

- mae'r Cyngor hefyd yn darparu calendrau i bob cartref i'w hatgoffa pryd y bydd gwahanol gasgliadau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu cynnal er mwyn lleihau'r perygl y bydd preswylwyr yn rhoi'r gwastraff a'r deunydd ailgylchu allan i'w casglu yn yr wythnos anghywir.

15 Fodd bynnag, er gwaethaf pob ymdrech i gyfathrebu'n rhagweithiol, dywedodd aelodau staff yn y gwasanaeth gwastraff wrthym nad yw'r cyhoedd bob amser yn cadw at safonau'r gwasanaeth.

- mae'r Cyngor wedi llunio taflenni y gall gweithwyr gwastraff eu gadael mewn cartrefi wrth gynnal casgliadau, i'w hysbysu os gadawyd y deunyddiau ailgylchu anghywir i'w casglu. Fodd bynnag, yn ystod ein gwaith maes dywedodd staff gweithredol wrthym nad yw'r taflenni hyn wedi bod ar gael ers misoedd, a dywedodd y staff wrthym fod hyn yn destun rhwystredigaeth gan nad ydynt yn gallu atgoffa'r cyhoedd ynghylch safonau'r gwasanaeth.

## Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a hyfforddi staff yn gwella, mae arferion gwaith bellach yn fwy cyson ac mae'r Cyngor yn ceisio lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth

Dangosyn 4: Cynnig ar gyfer Gwella 4 2015

| Cynnig ar gyfer Gwella 4 2015 |
| --- |
| Gwella'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a gorfodi arferion gwaith cyson ar draws y gwasanaeth. Dylai'r Cyngor:<br>• ddatblygu opsiynau eraill i reoli ei weithlu a chreu hyblygrwydd er mwyn bodloni'r galw ac ymateb i absenoldeb heb ei gynllunio ymhlith y staff; a<br>• datblygu a chyfathrebu ynghylch polisïau priodol yn gysylltiedig ag arferion gwaith a disgwyliadau i'r holl weithwyr, a monitro'r graddau y cedwir at y rhain. |

16 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- bu cynnydd y Cyngor o ran lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn araf, ond mae ymagwedd y Cyngor at gynllunio'r gweithlu bellach yn cynnig ystod fwy o gyfleoedd gyrfa a hyfforddiant i weithwyr gwastraff.
- yn y cyfnod 2016-2018, hyfforddodd y Cyngor 11 o Lwythwyr Gwastraff er mwyn iddynt ennill eu trwydded yrru HGV. Gall yr aelodau hyn o staff bellach weithio ar lefel uwch fel Arweinwyr Tîm/Gyrwyr Wrth Gefn pan fo angen pan fydd y gyrwyr arferol yn absennol am gyfnodau wedi'u cynllunio/annisgwyl. Mae hyn felly'n lleihau'r angen am staff asiantaeth i weithio fel gyrwyr, ond mae angen i'r Cyngor barhau i ddefnyddio staff asiantaeth i weithio fel Llwythwyr.
- yn ystod 2016-2018, llwyddodd saith gweithiwr gwastraff i ennill cymhwyster Gwaith Gwastraff Lefel 2 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) ac yn 2018, ceir trefniadau i bum gweithiwr arall dderbyn yr hyfforddiant hwnnw. Bydd un gweithiwr yn derbyn hyfforddiant Lefel 3 eleni, a derbyniodd un gweithiwr hyfforddiant lefel 4 ar Reoli Gwastraff rhwng 2016 a 2018.
- ar adeg y gwaith maes hwn, roedd y Cyngor yn trefnu i ddau Arweinydd Tîm/Gweithiwr Cyfrifol sefyll Tystysgrif Lefel 2 ar Egwyddorion Arweinydd Tîm drwy Hyfforddiant Torfaen. Mae'r Cyngor yn bwriadu trefnu i'r holl Arweinwyr Tîm o fewn yr adran sefyll y dystysgrif a chyflwyno'r cwrs hwn fel safon ar gyfer Arweinwyr Tîm newydd.
- fel y gwelir yn Nangosyn 1, cafwyd cynnydd sylweddol yn y gwariant a gynlluniwyd ar staff asiantaeth, o £554,000 yn 2016-17 i £831,000 yn 2017-18. Er bod y gwir wariant ar staff asiantaeth yn 2017-18 yn llai na'r gwariant a gynlluniwyd, mae'r swm yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r flwyddyn gynt ac oddeutu dwbl y gwariant a gynlluniwyd a'r gwariant gwirioneddol yn 2014-15. Mae'r Cyngor wedi lleihau'r gwariant a gynllunnir ar staff asiantaeth yn 2018-19.
- mae'r Prif Swyddog newydd ar hyn o bryd yn datblygu model staffio eilyddion sy'n golygu recriwtio tua 20 o weithwyr gwastraff newydd parhaol amser llawn er mwyn cael gwared â'r angen am staff asiantaeth. Mae'r Cyngor yn hyderus na cheir unrhyw gostau ychwanegol yn

gysylltiedig â chyflogi staff ychwanegol. Mae'r Cyngor yn disgwyl cychwyn y broses recriwtio hon yn nhymor yr hydref 2018.

- ceir morâl isel ymhlith y staff yn adrannau o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu gan fod y fflyd yn heneiddio, a chan nad oes cyfleusterau digonol ar gael iddynt fel cawodydd, ond ceir bellach arferion gwaith cyson gyda'r holl sifftiau'n gorffen am 3.30pm.

Dangosyn 5: crynodeb o wariant staff asiantaeth yn erbyn y gyllideb[4]

| (£000) | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant asiantaeth wedi'i gyllidebu (wedi'i gynllunio) | 338 | 236 | 410 | 385 | 454 | 554 | 831 | 562 |
| Gwariant gwirioneddol ar staff asiantaeth | 368 | 336 | 484 | 473 | 641 | 721 | 807 | 321 |
| **(Gorwariant)/Tanwariant** | **(30)** | **(100)** | **(74)** | **(88)** | **(187)** | **(67)** | **23*** | **241**** |

* Yn cynnwys £30,000 o gostau newydd ar gyfer depo Tŷ Coch.

** Yn cynnwys Tŷ Coch a ffigurau gwirioneddol hyd 14 Medi 2018.

## Cyflwynodd y Cyngor gytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer trefniadau cynnal a chadw cyffredinol rhwng gwasanaethau Fflyd a Gwastraff ym mis Gorffennaf 2018

Dangosyn 6: Cynnig ar gyfer Gwella 5 2015

| **Cynnig ar gyfer Gwella 5 2015** |
|---|
| Cyflwyno cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn cynnal a chadw cerbydau'r Gwasanaethau Fflyd.<br>Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod y cytundebau lefel gwasanaeth yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer pob parti; a<br>• sicrhau bod opsiynau eraill yn cael eu darparu os ceir oedi. |

17 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- roedd ymateb y Cyngor yn araf wrth ddatblygu cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) â'r Gwasanaethau Fflyd. Datblygwyd CLG yn 2017-18, ond ni chafodd y cytundeb hwnnw ei lofnodi'n ffurfiol hyd 23 Gorffennaf 2018, er mai'r dyddiad cychwyn oedd 1 Ebrill 2018.
- mae amserlen cynnal a chadw cerbydau ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn rhan o'r CLG rhwng y Gwasanaethau Fflyd a'r Gwasanaethau Gwastraff. Mae'r amserlen honno yn hysbysu'r gwasanaethau gwastraff pan fydd ar y Gwasanaethau Fflyd angen y cerbydau,

[4]Gwybodaeth a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

a phan na fyddant ar gael. Mae'r amserlen yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Gwastraff gyda'i waith cynllunio gweithredol.

- mae'r CLG Yn nodi'n glir beth yw disgwyliadau'r Gwasanaethau Fflyd a'r Gwasanaethau Gwastraff yn gysylltiedig â thrwsio a chynnal a chadw cerbydau, llogi a hurio cerbydau, system tracio cerbydau, gwaith swyddfa a gweinyddol y fflyd a monitro ac adolygu perfformiad.

18 Fodd bynnag, teimlai staff gweithredol y Gwasanaeth Gwastraff fod problemau o hyd yn gysylltiedig â materion cynnal a chadw ymatebol.

- teimlai llawer o'r staff gweithredol fod angen staff ychwanegol o fewn y Gwasanaethau Fflyd, gan eu bod yn cynnal contractau allanol yn ogystal â'u cyfrifoldeb dros gerbydau'r Cyngor, er enghraifft, gyda Thai Cymunedol Bro Afon a gwaith MOT preifat. Mynegodd staff gweithredol bryder nad oedd y Gwasanaethau Fflyd bob amser yn gallu ymateb yn brydlon i ofynion trwsio ymatebol, ac y gall achosion felly o oedi wrth gyflawni gwaith trwsio ymatebol, amharu ar effeithiolrwydd gweithredol y gwasanaeth gwastraff.
- mae'r CLG yn gwella'r trefniadau cyfathrebu rhwng y Gwasanaethau Fflyd a'r Gwasanaethau Gwastraff, ond nid yw sefydlu'r cytundeb, hyd yma, wedi bod yn fodd i ddatrys y problemau gweithredol a geir yn feunyddiol o fewn y gwasanaeth gwastraff.
- mae'r Gwasanaeth Gwastraff yn bwriadu adolygu'r CLG ar ôl y 12 mis cyntaf er mwyn canfod beth fu ei effaith.

## Mae'r Cyngor wedi gwella'r wybodaeth y mae'n ei darparu i aelodau am berfformiad contractau

### Dangosyn 7: Cynnig ar gyfer Gwella 6 2015

| **Cynnig ar gyfer Gwella 6 2015** |
|---|
| Gwella darpariaeth gwybodaeth monitro contractau. Dylai'r Cyngor:<br>• ddarparu gwybodaeth reolaidd am berfformiad contractau i'r aelodau; a<br>• defnyddio'r wybodaeth am berfformiad. |

19 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- mae'r swyddogaeth graffu yn ymwneud â chontractau gwastraff ac ailgylchu yn y cyfnod cyn penderfynu. Mae trefniadau'r Cyngor yn rhoi'r cyfrifoldeb am fonitro contractau'n rheolaidd i swyddogion, ac ni fydd pwyllgorau craffu felly'n derbyn adroddiadau monitro contract rheolaidd.
- fel y nodwyd yng nghynnig ar gyfer gwella 1, ers ein hadolygiad blaenorol o'r Gwasanaethau Gwastraff yn 2015, mae'r Cyngor wedi caffael tri chontract gwahanol car y cyd er mwyn gwaredu gwastraff a deunyddiau i'w hailgylchu
- yn ystod y broses gaffael ar gyfer y contractau gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd cyfarfu bwrdd prosiect a oedd yn cynnwys swyddogion o'r holl gynghorau partner. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd cydbwyllgor a oedd yn cynnwys dau aelod Cabinet o bob cyngor partner i oruchwylio'r broses gaffael.

- roedd y trefniadau ar gyfer y contract gwastraff gwyrdd ychydig yn wahanol gan fod cyfnod y contract hwnnw'n fyrrach a'i werth yn llai. Cyfarfu bwrdd prosiect o swyddogion i oruchwylio'r broses gaffael a rannwyd yn 'lotiau'. Cymerodd Cyngor Torfaen ran mewn proses gaffael ar y cyd â chynghorau Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd ar gyfer gwastraff gwyrdd. Er hynny, mae pob Cyngor wedi dyfarnu contract ar wahân.
- gan fod y tri chontract bellach ar waith, bydd swyddogion o bob cyngor a gymerodd ran yn cyfarfod bob mis i drafod gwybodaeth monitro contractau rheolaidd.
- mae cydbwyllgor wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys aelodau etholedig o'r cynghorau partner i drafod y contract gwastraff bwyd. Mae un aelod Cabinet o bob cyngor yn aelod o Bwyllgor Gweithredol sy'n goruchwylio'r contract Gwastraff Gweddilliol.
- Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Glanach nad oedd yn dymuno cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad contractwyr, ac yn sgil hynny, nid oes gan y Cyngor drefniadau i ddarparu'r adroddiadau hynny i'r Pwyllgor. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r pwyllgor craffu perthnasol i drafod y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu caffael contractau yn y dyfodol.

## Nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol eto i drefniadau rheoli perfformiad gweithwyr gwastraff

Dangosyn 8: Cynnig ar gyfer Gwella 7 2015

| Cynnig ar gyfer Gwella 7 2015 |
| --- |
| Gwella'r adborth i staff ar berfformiad. Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod yr holl staff yn cynnal adolygiad rheolaidd o berfformiad;<br>• darparu sianelau y gall aelodau unigol o staff eu defnyddio i roi adborth i'w rheolwyr ynghylch materion perfformiad; a<br>• sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir drwy'r broses hon yn cael ei defnyddio'n sail i wella'r gwasanaeth. |

20 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw drefniadau newydd ers ein hadolygiad Gwastraff blaenorol yn 2015 i ymdrin â rhwystredigaethau'r gweithwyr gwastraff ynghylch adborth ar berfformiad staff yn rhan o broses arfarnu flynyddol y Cyngor.
- mae rhaglen gorfforaethol y Cyngor, Gweithio'n Ddoeth, yn dal i fod ar waith i'r gweithwyr gwastraff, ac yn dal i fod yn destun rhwystredigaeth. Cydnabu llawer o swyddogion a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adolygiad hwn nad yw Gweithio'n Ddoeth yn ystyrlon nac yn briodol ar gyfer y gweithwyr gwastraff. Mae tîm AD y Cyngor yn ceisio canfod proses fwy ystyrlon ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes amserlen i ddangos pryd fydd system newydd ar gael ac yn cael ei gweithredu, a dechreuodd y broses Gweithio'n Ddoeth flynyddol ym mis Medi 2018.
- at ei gilydd, mae staff y gwasanaeth gwastraff yn gadarnhaol ynghylch y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael. Fodd bynnag, ni chynhelir cyfarfodydd un wrth un ystyrlon â goruchwylydd, a

gallai hynny atal rhai aelodau o staff rhag canfod cyfleoedd hyfforddi a gyrfa perthnasol sydd ar gael iddynt.

- mae Sgyrsiau Blwch Offer, sef sesiynau grŵp anffurfiol, wedi cael eu trefnu i griwiau gwastraff ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff ac ailgylchu, fel bo modd cwrdd â rheolwyr i drafod materion gweithredol. Dyma gyfle i sicrhau cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr, goruchwylwyr, gweithwyr cyfrifol a rheolwyr, ond cafwyd safbwyntiau cymysg ynghylch gwerth Sgyrsiau Blwch Offer gan nad oeddent yn cael eu cynnal yn ddigon aml.

## Mae'r Cyngor bellach yn defnyddio ystod ehangach o ddulliau i gyfathrebu ynghylch y gwasanaethau gwastraff er mwyn hysbysu preswylwyr

Dangosyn 9: Cynnig ar gyfer Gwella 8 2015

| Cynnig ar gyfer Gwella 8 2015 |
|---|
| Gwella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu a phreswylwyr ynghylch rheoli gwastraff. Dylai'r Cyngor:<br>• datblygu trefniadau cyfathrebu systematig a rheolaidd â phreswylwyr yn gysylltiedig â'r gwasanaeth, unrhyw newidiadau iddo a disgwyliadau perthnasol; a<br>• thargedu gwaith cyfathrebu at y grwpiau hynny sydd yn lleiaf tebygol o fod wedi ymgysylltu eisoes. |

21 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- fel y nodwyd uchod o dan gynnig ar gyfer gwella 3, mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o ddulliau i gyfathrebu â phreswylwyr ynghylch newidiadau i drefniadau a safonau gwasanaeth.
- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'r grwpiau neu'r preswylwyr hynny sydd yn llai tebygolo ailgylchu.
- yn 2018, buom yn cydweithio â'r Cyngor i gynnal ein hadolygiad 'Cysoni Dulliau o Gyflawni Newid'. Roedd yr adolygiad hwnnw'n canolbwyntio ar 'Wneud synnwyr o wastraff bwyd yn Nhorfaen'. Ymatebodd 583 o breswylwyr ar draws y Fwrdeistref i'r arolwg, a roddodd gipolwg i'r Cyngor o'r gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar ailgylchu gwastraff bwyd mewn gwahanol gymunedau yn nhyb y cyhoedd.
- mae'r Cyngor yn awyddus i gynnal archwiliad pellach o safbwyntiau preswylwyr mewn un ardal ddaearyddol ynghylch ailgylchu gwastraff bwyd. Rydym yn cydweithio â'r Cyngor, ei bartneriaid a'i breswylwyr i gynnal adolygiad 'safbwynt defnyddiwr gwasanaeth' o gyfranogiad mewn trefniadau gwastraff bwyd yn yr ardal ddaearyddol hon yn nhymor yr hydref 2018. Mae'r Cyngor am ddysgu sut i wella cyfraddau cyfranogiad gwastraff bwyd yn yr ardal hon ac, o bosib, mewn ardaloedd eraill o fewn y Cyngor lle mae'r gyfradd sy'n ailgylchu gwastraff bwyd yn isel.
- ers 2013-14, mae nifer y cwynion am y gwasanaeth gwastraff wedi gostwng yn sylweddol:
  - 2013-14: 71
  - 2014-15: 42

– 2015-16: 51
– 2016-17: 33
– 2017-18: 6

- caiff cwynion eu rhannu i themâu, sy'n gysylltiedig â safonau'r gwasanaeth gwastraff, er enghraifft, casgliadau a gollwyd, (ailgylchu/biniau cul/gwastraff y cartref/casgliadau gyda chymorth), biniau heb eu dychwelyd i'w man gwreiddiol, cynwysyddion gwastraff a archebwyd heb gyrraedd, casgliadau gwastraff gardd, difrod i gynwysyddion gwastraff ac ailgylchu neu gwynion a achosir gan y criw.
- casgliadau a gollwyd oedd testun mwyafrif y cwynion a gafwyd dros y cyfnod hwn o bum mlynedd. Fodd bynnag, mae nifer y cwynion ynghylch casgliadau a gollwyd wedi gostwng yn sylweddol o 59 yn 2013-14 i bump yn 2017-18.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei drefniadau rheoli risg strategol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff, ond mae angen iddo sicrhau bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol

Dangosyn 10: Cynnig ar gyfer Gwella 9 2015

| **Cynnig ar gyfer Gwella 9 2015** |
|---|
| Cryfhau trefniadau rheoli risg Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau cysylltiadau priodol rhwng y gofrestr risg gorfforaethol a chofrestr risg y gwasanaeth; a<br>• sicrhau bod y cofrestrau risg yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r holl risgiau ar draws y gwasanaeth |

22 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflwyno gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer cofnodi risgiau gwastraff, ar ôl creu cysylltiadau rhwng y risg a gofnodwyd ar y gofrestr risg gorfforaethol a'r camau lliniarol yn y cynlluniau lefel gwasanaeth a chynllun y tîm gwastraff ar gyfer 2018-19.
- dyma'r risg i'r gwasanaeth gwastraff ar y gofrestr risg gorfforaethol (cyfeirnod risg 23):
  – 'ar ôl gweithredu ein Strategaeth Wastraff yn llawn, ceir risg o hyd na fyddwn yn cyrraedd Targedau Ailgylchu Statudol Llywodraeth Cymru oherwydd diffyg cyfranogiad gan breswylwyr, gan achosi ffioedd sylweddol i'r Cyngor'.
- dyma'r cam lliniarol yn gysylltiedig â'r risg hon yng nghynllun y gwasanaeth Cymdogaethau a Diogelu'r Cyhoedd 2018-19:
  – 'llunio a dechrau gweithredu'r Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer Torfaen'.
- dyma'r cam lliniarol yng Nghynllun y Tîm Gwastraff ar gyfer 2018-19:
  – 'annog preswylwyr i gymryd rhan yn llawn yn y cynlluniau ailgylchu'.
- yn ddiweddar, bu'r Prif Swyddog yn adolygu'r risgiau ar draws yr adran, a bydd yn cyflwyno'r gofrestr risg ddiwygiedig gerbron y Pwyllgor Archwilio yn hwyrach yn nhymor yr hydref 2018. Cyn hynny, pennwyd dwy risg uchel: Peidio cyrraedd targedau statudol ar gyfer ailgylchu a

diffyg ffynonellau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff. Ym mis Mehefin 2018, tynnodd y Prif Swyddog ffynonellau gwaredu gwastraff oddi ar y gofrestr risg, gan fod y Cyngor wedi dyfarnu contractau parhaol hirdymor.

- er bod peidio cyrraedd y targed ailgylchu statudol yn risg i'r Cyngor, yn ystod y gwaith maes nododd llawer o'r staff fod y gwasanaeth yn wynebu risgiau ychwanegol o safbwynt gweithredol, sef peidio cael y cerbydau angenrheidiol i gwblhau'r casgliadau. Yn ogystal a hynny, fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2015, gallai rigiau gweithredol eraill fodoli nad ydynt wedi'u cofnodi, er enghraifft, methiant i weithredu'r model staff eilyddion gan olygu bod y ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn parhau. Nid yw'n ofynnol yng nghanllawiau cynllunio gwasanaeth y Cyngor i gofnodi risgiau lefel gwasanaeth mewn cynlluniau tîm. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwasanaeth yn rheoli risgiau gweithredol yn effeithiol.

## Nid yw'r Cyngor wedi monitro ei gynnydd yn ddigonol wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella yn 2015

23 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ein cynigion ar gyfer gwella, ac i herio cynnydd yn erbyn y cynigion hynny. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i herio arafwch y Cyngor wrth ymdrin â'n cynigion i wella'r gwasanaeth gwastraff.
- ddwywaith y flwyddyn bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn 'cynllun gweithredu ar gyfer llywodraethu a gwella' i fonitro cynnydd ein cynigion ar gyfer gwella. Nodir yn y cynllun gweithredu hwn mai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach sydd yn monitro cynigion ar gyfer gwella'r gwasanaeth gwastraff. Yn y 'cynllun gweithredu ar gyfer llywodraethu a gwella', a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 14 Mawrth 2018, Hydref 2016 oedd y dyddiad targed er mwyn i'r pwyllgor archwilio gael y newyddion diweddaraf am y cynigion i wella'r gwasanaeth gwastraff, i ddibenion sicrwydd. Ar adeg cyflawni ein gwaith maes, nid oedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael diweddariad.
- derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach ddau adroddiad ar gynnydd a amlinellai gynnydd y gwasanaeth yn erbyn ein cynigion ar gyfer gwella yn 2015, y naill ym mis Mawrth 2017 a'r llall ym mis Mehefin 2018. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Craffu herio'r wybodaeth a gwneud argymhellion.

24 Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach ynghylch monitro cynigion ar gyfer gwella yn brin.

25 Ar 20 Mehefin 2018, ni chyfeiriai'r diweddariad i'r Pwyllgor Craffu at yr amserlen a nodwyd er mwyn ymdrin â phob cynnig ar gyfer gwella, fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu gwreiddiol a ystyriwyd gan y Pwyllgor hwnnw ym mis Rhagfyr 2015. Ni roddai'r adroddiad diweddaru asesiad cyffredinol o gynnydd, a oedd y camau'n parhau i fod yn berthnasol, a oes angen cymryd camau newydd, neu a ystyrir bod unrhyw gynigion ar gyfer gwella 'wedi'u cwblhau'.

- yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach ar 20 Mehefin 2018, gofynnodd y Cadeirydd pam nad oedd y Cyngor wedi llunio strategaeth integredig sengl ar gyfer gwastraff. Ni ofynnodd yr aelodau am gadarnhad gan swyddogion ynghylch pryd y byddai briff terfynol a thendr ar gael er mwyn caffael ymgynghorydd allanol i gyflenwi'r strategaeth integredig sengl ar gyfer gwastraff. Dywedodd y swyddogion y byddai drafft terfynol y ddogfen dendro yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond ni chwestiynodd yr

aelodau natur amwys yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Nid oedd yr adroddiad cynnydd ar ein cynigion ar gyfer gwella yn cynnwys amcangyfrif o'r costau'n gysylltiedig â phenodi ymgynghorydd allanol, ac ni ofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch hyn.

- yn ein hadroddiad **Trosolwg a Chraffu: Addas i'r Dyfodol** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, cyflwynwyd cynnig ar gyfer gwella gennym i'r Cyngor: sicrhau bod gan aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu fynediad at wybodaeth gynhwysfawr ac amserol wrth gyflawni gweithgarwch craffu. Byddai cynnydd yn erbyn graddfeydd amser gwreiddiol, gwybodaeth am raddfeydd amser diwygiedig a gwybodaeth am unrhyw newidiadau i'r camau gwreiddiol o gymorth i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Glanach gynnig mwy o her, a byddai hynny o gymorth iddo fonitro cynnydd yn effeithiol wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella.
- nid yw monitro ein cynigion i wella'r gwasanaeth gwastraff yn rhan o Asesiadau Perfformiad Corfforaethol y Cyngor. Fel y nodwyd uchod o dan gynnig ar gyfer gwella 2, dylai Asesiadau Perfformiad Corfforaethol helpu Aelodau Gweithredol i gael dealltwriaeth well o berfformiad yn gysylltiedig â'r portffolios y maent yn atebol amdanynt, a rhoi cyfle i'r Aelodau Gweithredol gwestiynu a herio Prif Swyddogion ynghylch perfformiad gwasanaethau. Mae diffyg gwybodaeth fonitro i Uwch Arweinyddiaeth y Cyngor wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella hefyd yn golygu nad yw cynnydd yn cael ei herio'n ddigonol.

# Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mewn ymateb i gynigion Swyddfa Archwilio Cymru i wella'r gwasanaeth gwastraff

Dangosyn 11: cynllun gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i gynigion Swyddfa Archwilio Cymru i wella'r gwasanaeth gwastraff

<table>
<tr><th>Cynnig</th><th>Swyddog Cyfrifol</th><th>Amserlen</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td>C1 Datblygu strategaeth integredig sengl ar gyfer ei Wasanaeth Rheoli Gwastraff. Dylai'r Cyngor:<br>• bennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y gwasanaeth, y tu hwnt i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.<br>• datblygu strategaeth integredig sengl sy'n nodi:<br>– sut y caiff y weledigaeth ei gwireddu;<br>– pa seilwaith sydd ei angen;<br>– sut y bydd yn cydweithio ag eraill a'i ymagwedd at gontractio allan; a<br>– sut mae'n bwriadu addysgu preswylwyr a chymryd camau gorfodi priodol.</td><td>• Prif Swyddog, GC a CDC<br>• Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Arweinydd Grwp, Gwastraff a Gwasanaethau Stryd</td><td>Ionawr hyd hydref 2016</td><td>Mae'r Strategaeth Wastraff gyfredol wedi'i chynnwys mewn Adroddiad i'r Cabinet o 2009, ac wedi'i gwella drwy Adroddiad i'r Cabinet yn 2011. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys cynllun i gyrraedd y targedau ailgylchu statudol erbyn 2025.<br>Mae'r cynigion yn yr adroddiadau hynny wedi'u gweithredu. Mae swyddogion felly'n cytuno fod angen Strategaeth Wastraff newydd sy'n nodi'n glir sut y bydd yr awdurdod yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2025. Dylai'r strategaeth honno gynnwys addysg, ymwybyddiaeth a gorfodaeth, yn ogystal ag unrhyw newidiadau strwythurol pellach y gellir eu cyflwyno, a'r modd y bwriedir trin a gwaredu'r gwastraff a gesglir.<br>Bydd gwaith ar y strategaeth yn dechrau'n fuan yn 2016.<br>Bydd swyddogion yn ymgorffori'r elfennau hynny a awgrymwyd yn adroddiad SAC, fel y seilwaith a sefydlwyd hyd yma ac unrhyw agweddau eraill y bydd eu hangen, mentrau i gaffael ar y cyd ag eraill, nodi'n glir sut y caiff gwastraff ei reoli, addysg a gorfodaeth.<br>Bydd swyddogion hefyd:<br>• Yn cynnal ymchwil pen bwrdd er canfod pa strategaethau gwastraff sy'n cael eu defnyddio gan awdurdodau eraill gan chwilio am enghreifftiau o arfer gorau sydd ar gael;<br>• Cyfeirio'n ôl i ddogfen wreiddiol 'Cymru'n un' a chyfeirio at ganllawiau a ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, fel Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a<br>• Bil yr Amgylchedd;<br>• Cynnwys tîm ehangach y Strategaeth Wastraff yn y broses o'i chreu.<br>Ar ôl llunio drafft o'r strategaeth, bydd swyddogion yn ei chyflwyno yn un o gyfarfodydd y pwyllgor craffu, a'i chyflwyno mewn seminar i'r aelodau cyn i'r Cyngor ddod i benderfyniad yn yr hydref.<br>Byddai croeso i'r pwyllgor gynnig unrhyw agweddau eraill i'w cynnwys yn y Strategaeth.</td></tr>
</table>

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C2 Cryfhau'r trefniadau llywodraethu a herio.<br>Dylai'r Cyngor:<br>• egluro a gweithredu rolau a chyfrifoldebau perthynol swyddogion, aelodau a'r swyddogaeth Graffu; a<br>• lle bo'n briodol, defnyddio'r swyddogaeth Graffu y yn sail ar gyfer y broses benderfynu, yn hytrach nag ar gyfer adolygiad yn dilyn penderfyniad yn unig. | • Prif Swyddog, GC a CDC<br>• Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff | Wedi'i gwblhau ac yn parhau, drwy gamau'r adolygiad cymheiriaid a hefyd yn barhaus drwy benderfyniad yn ôl yr angen. | Cafwyd sylwadau ynghylch rolau a chyfrifoldebau perthynol swyddogion, aelodau a'r swyddogaeth graffu yn rhan o'r Adolygiad Cymheiriaid, ac mae grŵp gweithredu'r adolygiad cymheiriaid wedi bwrw ymlaen â'r camau canlynol:<br>• Mae sesiynau rheolaidd wedi cael eu trefnu er mwyn briffio'r Arweinydd, y Cyng. Jones a'r Cyng. Cunningham (a'r Cyng. Clark bellach) ar y cyd;<br>• Adolygu disgrifiadau rôl Aelodau Cabinet sy'n ymwneud â Gwasanaethau Cymdogaeth - yn parhau<br>Mae'r swyddogion o'r farn bendant fod y swyddogaeth graffu yn cael ei defnyddio'n helaeth cyn y gwneir penderfyniadau<br>gan y Cabinet/y Cyngor/yr Aelod Gweithredol, fel y dangosir mewn adroddiadau diweddar ar gynigion y biniau cul, perfformiad safonau gwasanaeth ac ati. Bydd hyn yn parhau. |

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C3 Mynd ati'n fwy gweithredol i hyrwyddo safonau gwasanaeth y Cyngor a gwella ansawdd data yn gysylltiedig â hwy. Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod pwysigrwydd safonau'r gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyfleu wrth y staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth o'u rôl yn y safonau hynny;<br>• bod gwybodaeth am berfformiad yn erbyn safonau'r gwasanaeth gwastraff yn cael ei chasglu a'i hadrodd mewn modd amserol; a<br>• adrodd ar berfformiad yn erbyn safonau'r gwasanaeth a rhannu'r canlyniadau â'r staff, yr aelodau a'r dinasyddion yn rheolaidd. | • Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Arweinydd Grwp, Gwastraff a Gwasanaethau Stryd | Cwblhawyd ac yn parhau. Bydd Ffynnon yn parhau i gael ei ddiweddaru bob chwarter, ac adroddiad blynyddol yn cael ei lunio, fel y cytunwyd â'r aelodau. | Cafodd safonau'r gwasanaeth gwastraff eu lansio ym mis Ebrill 2014, a'u cyfleu'n bersonol gan y Pennaeth Gwasanaeth wrth bob gweithiwr gwastraff ar y pryd, yn y misoedd ar ôl lansio. Byddant yn cael eu hail-lansio bob blwyddyn.<br>Bydd perfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth yn cael ei adrodd yn Ffynnon bob chwarter, fel y cytunwyd â'r aelodau wrth gytuno ar y Safonau Gwasanaeth yn wreiddiol.<br>Pan gymeradwywyd y safonau gwasanaeth yn wreiddiol, cytunodd yr aelodau y dylid llunio adroddiad blynyddol. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad ar berfformiad yn ei gyfarfod ym mis Medi, ac mae'r adroddiad diwygiedig ym meddiant cydweithwyr o'r adran gyfathrebu ar hyn o bryd, yn disgwyl cael ei ailddylunio cyn ei gyhoeddi i ddinasyddion. |

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C4 Gwella'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a gorfodi arferion gwaith cyson ar draws y gwasanaeth.<br>Dylai'r Cyngor:<br>• ddatblygu opsiynau eraill i reoli ei weithlu a chreu hyblygrwydd er mwyn bodloni'r galw ac ymateb i<br>• absenoldeb heb ei gynllunio ymhlith y staff; a<br>• datblygu a chyfathrebu ynghylch polisïau priodol yn gysylltiedig ag arferion gwaith a<br>• disgwyliadau i'r holl weithwyr, a monitro'r graddau y cedwir at y rhain. | • Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Arweinydd Grwp, Gwastraff a Gwasanaethau Stryd<br>• Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff | Parhaus | Mae gwaith wedi bod yn parhau ers cryn amser i leihau lefelau salwch. Y lefelau salwch cyffredinol yn 13/14 oedd 31.14 o ddiwrnodiau wedi'u colli am bob swydd CALI, yn 14/15 collwyd 24.44 o ddiwrnodiau, a'r ffigur ar gyfer Ch1 15/16 oedd 5.71 (1.30) a 3.39 (1.44) ar gyfer Ch2. Diwrnodiau salwch byrdymor yw'r niferoedd mewn cromfachau.<br>Mae'r Isadran Gwasanaethau Cymdogaeth a Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ar ganol recriwtio swyddog AD dros dro fydd yn cynorthwyo i sefydlu sawl menter i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Ni wyddys beth fydd y dyddiad penodi.<br>Dyma rai o'r mentrau sydd dan ystyriaeth:<br>• Cael staff parhaol 'yn ôl yr angen' i weithio pan fo aelodau eraill o staff ar wyliau neu'n sâl;<br>• Recriwtio staff tymhorol yn ystod yr haf i lenwi'r rowndiau casglu 'gwyrdd' (defnyddir staff asiantaeth ar hyn o bryd gyda'r staff presennol).<br>Yn ogystal â hynny, mae nifer o'r staff llwytho wedi cael eu hyfforddi fel gyrwyr HGV fel eu bod yn gallu gweithio fel gyrwyr pan na fydd y gyrwyr arferol ar gael, gan mai dyma un o'r meysydd sydd yn costio fwyaf i'r adran mewn costau asiantaeth. Gellir defnyddio staff fel y bo'r angen.<br>Bydd angen gwneud rhywfaint o ddefnydd o staff asiantaeth o hyd i lenwi absenoldebau byrdymor ac absenoldebau annisgwyl, ond rhagwelir y bydd modd lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn sylweddol drwy'r mesurau hyn.<br>Caiff arferion gwaith eu cyfleu'n barhaus wrth y criwiau gan y Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwyr Gweithredol, naill ai fesul achos yn dilyn ymarfer siopwr cudd, cwynion, canmoliaeth neu ymholiadau i'r gwasanaeth.<br>Yn ogystal â hynny, cafodd swydd-ddisgrifiadau eu rhannu eto yn 2015, er mwyn pwysleisio'r math o ymddygiad ac arferion a ddisgwylir gan griwiau.<br>Caiff perfformiad ei fonitro, ac adroddir ar berfformiad yn unol â'r sylwadau yn erbyn Cynnig 7. |

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C5 Cyflwyno cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn cynnal a chadw cerbydau'r Gwasanaethau Fflyd. Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod y cytundebau lefel gwasanaeth yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer pob parti; a<br>• sicrhau bod opsiynau eraill yn cael eu darparu os ceir oedi. | • Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Pennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Eiddo<br>• Arweinydd Grwp, Gwastraff a Gwasanaethau Stryd<br>• Arweinydd Grŵp, Trafnidiaeth a Fflyd | Ionawr hyd Ebrill 2016 | Rydym yn croesawu ac yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.<br>Dyma faes newydd i'r is-adran, felly bydd trafodaethau'n cael eu cynnal â chydweithwyr o'r Fflyd yn fuan yn 2016 er mwyn dechrau'r broses o gasglu disgwyliadau'r naill barti a'r llall, a'r modd y gellir gwella'r trefniadau wrth gefn pan fo cerbydau'n torri. Unwaith eto, bydd swyddogion yn cynnal ymchwil pen bwrdd er mwyn canfod beth yw trefniadau awdurdodau eraill o ran hyn, a'r hyn a ystyrir yn arfer gorau. |

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C6 Gwella darpariaeth gwybodaeth monitro contractau.<br>Dylai'r Cyngor:<br>• ddarparu gwybodaeth reolaidd am berfformiad contractau i'r<br>• aelodau; a<br>• defnyddio'r wybodaeth am berfformiad a'r swyddogaeth Graffu yn sail wrth gydweithio a llunio contractau yn y dyfodol. | • Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Arweinydd Grwp, Gwastraff a Gwasanaethau Stryd | I'w benderfynu | Mae'r swyddogion yn cwestiynu gwerth y cynnig hwn.<br>Dyfernir contractau gan y Cabinet yn unol â chyfansoddiad y Cyngor a'i Reolau Sefydlog ar gyfer Contractau, p'un a yw'r Cyngor yn gweithredu ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynghorau eraill.<br>Bydd adroddiadau sy'n gofyn am ddyfarnu contract fel arfer yn cynnwys manylion trefniadau contractio blaenorol, eu cost a, lle bo'n berthnasol, eu perfformiad. Weithiau bydd technoleg yn newid gan olygu bod perfformiad yn y gorffennol yn amherthnasol. Mae rhyddid i'r cyhoedd weld mwyafrif yr adroddiadau, er na fydd yr adroddiadau hynny'n cynnwys enwau'r tendrwyr.<br>Ar ôl dyfarnu contractau, y drefn arferol yw bod swyddogion yn rheoli contractau fel materion gweithredol, gan gyflwyno adroddiadau i'r aelodau ar sail eithriad, hynny yw os ceir perfformiad gwael neu os oes mater i'w drafod. Mae estyniadau ar gontractau, os caniateir yr estyniadau hynny wrth ddyfarnu'r contract gwreiddiol, hefyd yn faterion gweithredol ac yn destun adroddiad gan Brif Swyddog.<br>Ni fyddai adrodd ar berfformiad contractau tra bo contractau'n cael eu cynnal yn dda ond yn golygu cyflwyno adroddiadau gwybodaeth i'r aelodau, i'w hysbysu bod x o wastraff wedi'i anfon at gontractwr y a'i brosesu'n dda am gost o £. Ni chaiff gwybodaeth o'r fath ei hadrodd yn rheolaidd wrth y Prif Swyddog, sydd yn grymuso swyddogion i gynnal eu gwasanaethau ac yn ymddiried ynddynt i adrodd ar sail eithriad pan fo angen.<br>O ddarparu adroddiadau neu wybodaeth reolaidd, pa werth fyddai i'r wybodaeth honno, sut fyddai'r aelodau'n gweithredu yn ei sgil, a sut fyddai ei darparu yn gwella'r canlyniadau i ddinasyddion?<br>Dyma'r contractau y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno arnynt:<br>• Trin a gwaredu gwastraff gweddilliol;<br>• Trin a gwaredu gwastraff bwyd;<br>• Trin a gwaredu gwastraff gwyrdd;<br>• Casglu a chrynhoi deunydd ailgylchu (byddwn yn cyflwyno ein gorsaf grynhoi ein hunain yn fuan i ddisodli'r<br>• trefniadau hyn);<br>• Cynnal yr orsaf trosglwyddo gwastraff a'r ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref<br>• (data perfformiad yn Ffynnon).<br>Gofynnir safbwynt y pwyllgor felly ynghylch y cynnig hwn. |

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C7 Gwella'r adborth i staff ar berfformiad.<br>Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod yr holl staff yn cynnal adolygiad rheolaidd o berfformiad;<br>• darparu sianelau y gall aelodau unigol o staff eu defnyddio i roi adborth i'w rheolwyr ynghylch materion perfformiad; a<br>• sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir drwy'r broses hon yn cael ei defnyddio'n sail i wella'r gwasanaeth. | • Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Arweinydd Grwp, Gwastraff a Gwasanaethau Stryd<br>• Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015, ac yn flynyddol ar drefniant am yn ail wedi hynny | Bydd yr holl staff swyddfa yn derbyn adolygiadau un wrth un rheolaidd ac adolygiadau Gweithio'n Ddoeth blynyddol.<br>Mae'r holl aelodau staff gweithredol ar hyn o bryd yn derbyn adolygiadau Gweithio'n Ddoeth electronig, a bydd yr ymarfer hwn wedi'i gwblhau erbyn y Nadolig. Ar ôl hynny, bydd adolygiadau Gweithio'n Ddoeth electronig wedi'u gwasgaru ar draws y flwyddyn ac yn cael eu hailadrodd yn flynyddol.<br>O hyn allan, bydd adolygiadau Gweithio'n Ddoeth yn rhan o gynllun<br>y Tîm Gwastraff, a bydd cynnydd yn eu herbyn yn cael ei adolygu drwy broses y cynllun tîm.<br>Mae'r adolygiadau Gweithio'n Ddoeth yn galluogi unigolion i roi adborth ynghylch materion perfformiad, a hefyd yn galluogi'r rheolwr i gofnodi unrhyw faterion perfformiad fydd eisoes wedi'u trafod ag unigolion.<br>Yn ogystal â hynny, bydd sesiynau briffio rheolaidd â thimau unigol ynghylch eu perfformiad, yn seiliedig ar ganmoliaeth, cwynion, ymholiadau i'r gwasanaeth ac ymarferion siopwr cudd, naill ai'n uniongyrchol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, neu gydag aelodau eraill o'r tîm rheoli gweithredol er mwyn helpu i wella perfformiad.<br>Cesglir data am gasgliadau a gollwyd ar raddfa'r rownd a'r criw, ac adroddir y data'n ôl i'r criwiau ar lafar a thrwy bosteri perfformiad yn ystafelloedd y criwiau.<br>Mae'r posteri perfformiad, a gaiff eu diweddaru bob chwarter, hefyd yn amlinellu'r perfformiad ailgylchu cyfredol, lefel y salwch a chost y salwch hwnnw i'r adran, a nifer a natur unrhyw gwynion neu ganmoliaeth.<br>Mae caban pob cerbyd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am rownd y criw neilltuol hwnnw, gan gynnwys posteri i'w hannog i drin cynwysyddion yn well a gadael y stryd yn daclusach ar ôl casglu.<br>Mae'r Cyngor yn defnyddio ei bolisïau disgyblu i ymdrin ag achosion mynych o berfformiad gwael gan unigolion neu dimau penodol, a bydd yn parhau i wneud hynny. |

| Cynnig | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| C8 Gwella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu a phreswylwyr ynghylch rheoli gwastraff.<br>Dylai'r Cyngor:<br>• datblygu trefniadau cyfathrebu systematig a rheolaidd â phreswylwyr yn gysylltiedig â'r gwasanaeth, unrhyw newidiadau iddo a disgwyliadau perthnasol; a<br>• thargedu gwaith cyfathrebu at y grwpiau hynny sydd yn lleiaf tebygol o fod wedi ymgysylltu eisoes | • Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwastraff<br>• Cyfathrebu | Cwblhawyd ac yn parhau | Mae trefniadau i gyfathrebu'n rheolaidd ac yn systematig ynghylch y gwasanaeth gwastraff eisoes ar waith drwy erthyglau yn Llais Torfaen, ffrydiau rheolaidd yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar y wefan, a sioeau teithiol tymhorol. Cynhaliwyd 38 o sioeau teithiol ymgynghorol yn 2014, a nifer tebyg o sioeau teithiol i godi ymwybyddiaeth yn 2015 lle rhoddwyd cyfle i breswylwyr gasglu gwybodaeth a chynwysyddion cyn cyflwyno'r biniau cul.<br>Bydd Swyddogion Ymwybyddiaeth Gwastraff hefyd yn ymweld ag eiddo unigol i drafod gwasanaethau gwastraff ar gais, yn ôl yr angen.<br>Yn ystod pob blwyddyn, cynhelir ymgyrchoedd cyfathrebu i amlygu rhan benodol o'r gwasanaeth fel ailgylchu cyffredinol, ailgylchu plastigau, ailgylchu metel ac ailgylchu bwyd, neu'n unol ag anghenion neu adborth. Er enghraifft, os bydd preswylwyr yn gwneud sylw ynghylch agwedd neilltuol ar y gwasanaeth, boed hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy'r aelodau, bydd yr agwedd honno'n cael ei datblygu'n un o'r ymgyrchoedd penodol. Yn yr un modd, os bydd y criwiau'n adrodd cynnydd mewn halogiad mewn un ffrwd wastraff neilltuol, bydd hynny hefyd yn cael ei gynnwys fel ymgyrch benodol. O hyn allan, bydd data Mosaic, a gaffaelwyd yn ddiweddar gan y Cyngor, yn cael eu defnyddio i dargedu gweithgareddau cyfathrebu. Bydd swyddogion hefyd yn cydweithio'n agos â Rhaglen Weithredu Adnoddau Cymru i dargedu ymgyrchoedd cyfathrebu yn unol â'u model segmentu. |
| P9 Cryfhau trefniadau rheoli risg<br>Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau cysylltiadau priodol rhwng y gofrestr risg gorfforaethol a chofrestr risg y gwasanaeth; a<br>• sicrhau bod y cofrestrau risg yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r holl risgiau ar draws y gwasanaeth. | • Prif Swyddog, GC a CDC<br>• Prif Swyddog Cynorthwyol, Adnoddau | Cwblhawyd | Cynhaliwyd adolygiad corfforaethol o'r holl risgiau i'r cyngor, ar raddfa gorfforaethol ac ar raddfa gwasanaethau, yn fuan yn 2015, ac mae'r risgiau ar raddfa gorfforaethol ac ar raddfa gwasanaethau yn cael eu hailddiffinio ac yn cael eu monitro o hyn allan. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales